LC312

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|
| DRAFFT | DRAFT |

**Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 8) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau fel y mae'n gymwys i Gymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn disodli Erthyglau 24 a 34A (sy'n ymwneud ag anifeiliaid ar dir comin); ac Erthyglau 27 a 37C (sy'n ymwneud â chneifio a dipio defaid).

Cafodd yr Erthyglau 24, 27, 34A a 37C sy'n cael eu disodli, eu mewnosod eu hunain gan Orchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 7) 2001 (OS 1874 (Cy.134)).

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn.

Ceir crynodeb manwl yn y Nodyn Esboniadol.

Mae darpariaethau tebyg wedi'u gwneud ar gyfer Lloegr.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

Ceir dau wall teipograffyddol fel y'u crybwyllir isod.  Gan fod y Gorchymyn wedi'i gyhoeddi

eisoes, dylid holi Gwasg Ei Mawrhydi a yw’n briodol cyhoeddi dalen gywiro ac a oes modd cywiro’r pwyntiau hyn yn y gyfrol flynyddol.

**Y Nodyn Esboniadol – 3ydd paragraff**

Dylai ‘27A a 37CA’ ddarllen’27 a 37C’ yn y testun Cymraeg.

**Troednodyn (b)**

Mae hwn yn anghyflawn yn y testun Cymraeg.

**D H DAVIES**
**Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol**
**Y Pwyllgor Deddfau**

Cyf: LAD 01-01-360

28 Mehefin 2001